# 28. Creu Blychau Testun wedi'u Hamlygu

## Cyflwyniad

Mae'n bosibl amlygu ardal o destun yn eich tudalen drwy ychwanegu blwch o'i amgylch i wneud iddo sefyll allan fwy. Mae dau wahanol fath o amlygu y gallwch ei ddefnyddio

- Cynhwysydd Blwch
- Hysbysiad (safonol neu ganolog)

Mae gosod y naill arddull neu'r llall yn debyg iawn. Fodd bynnag, gall olygu gweithio yn y wedd HTML, felly mae'n addas ar gyfer defnyddwyr CMS hyderus/profiadol yn unig.

Os oes arnoch angen cymorth i greu blychau testun wedi'u hamlygu, cysylltwch â ni ar e-bost ar gg@aber.ac.uk neu drwy ffonio 2400.

## Cynhwysydd Blwch

Mae hyn yn creu amlinelliad blwch o amgylch y cynnwys. Bydd gan y blwch forder melyn.

Here is some text.

Here is some more text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.

Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.

# Hysbysiad

Mae hyn yn creu blwch o amgylch y cynnwys gyda chefndir llwyd golau.

## Safonol

Here is some text.

Here is some more text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.

Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.

## Canolog

Here is some text.


Here is some more text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.

Here is some text. Here is some text. Here is some text. Here is some text.


# Creu eich Ardal wedi'i Hamlygu

## Amlygu Un Paragraff


1. Agorwch neu crëwch y darn o gynnwys lle'r hoffech ychwanegu'r testun a amlygwyd.
2. Dewch o hyd i, neu ychwanegwch y testun yr hoffech ei amlygu.
3. Cliciwch ar y paragraff yr hoffech ei amlygu yn y ffenestr olygu
4. Edrychwch ar waelod y ffenestr olygu lle dylech weld 'p'




5. Cliciwch ar y p, er mwyn dewis y paragraff cyfan.



6. Cliciwch ar y ddewislen **'Format'** yna rhowch eich llygoden dros **'Formats'** yna '**Custom Formats**' er mwyn i ail ddewislenni pellach ymddangos:




7. Dewiswch un o'r canlynol o'r ail ddewislen:

   a. Ar gyfer Cynhwysydd Blwch, dewiswch **'box-container'**

   **b.** Ar gyfer blwch Hysbysiad safonol, dewiswch **'notification'**

   c. Ar gyfer blwch Hysbysiad canolog, dewiswch **'notification-centre'**

8. Dylai eich testun nawr ymddangos yn y math o flwch priodol yn y ffenestr olygu.

9. Pan fyddwch wedi gorffen ychwanegu eich blwch, cliciwch ar **Save changes** i orffen.

10. Edrychwch ar ragolwg o'r adran ar strwythur y safle i wneud yn siŵr bod y blwch yn ymddangos fel yr hoffech.

## Amlygu Nifer o Baragraffau


1. Agorwch neu crëwch y darn o gynnwys lle'r hoffech ychwanegu'r testun a amlygwyd.

2. Dewch o hyd i, neu ychwanegwch y testun yr hoffech ei amlygu.

3. Agorwch y golygydd **Source code** trwy glicio ar y ddewislen **Tools** a dewis **Source code**:





4. Bydd y golygydd **Source code** yn ymddangos:




5. Edrychwch am y testun yr hoffech ei amlygu. Os oes gan eich tudalen lawer o gynnwys, efallai y bydd angen i chi edrych yn ofalus drwy'r wedd HTML i ddod o hyd i'ch testun.

6. Gwnewch linell newydd cyn ac ar ôl y testun y dylid ei amlygu, gan wneud yn siŵr eich bod yn cadw unrhyw dagiau agor a chau gyda'r testun y maent yn ei amgylchynu. Tag yw testun rhwng "cromfachau sy'n pwyntio" (<>). Gallai fod yn dagiau paragraff <p> a </p>, neu gallai fod yn dagiau pennawd megis <h2> a </h2>.

   Er enghraifft:




7. Yn y llinell newydd **cyn** y testun dewisol teipiwch un o'r canlynol:
   a. Ar gyfer Cynhwysydd Blwch, teipiwch <div class="box-container">
   b. Ar gyfer blwch Hysbysiad safonol, teipiwch <div class="notification">
   c. Ar gyfer blwch Hysbysiad canolog, teipiwch <div class="notification-centre">
8. Yn y llinell newydd **ar ôl** y testun teipiwch </div>
9. Dylai eich HTML edrych yn debyg i hyn:




10. Cliciwch ar y botwm **Save** ar waelod y golygydd **Source code** ar y dde i gadw eich newidiadau.

11. Dylai eich testun nawr ymddangos yn y math o flwch priodol yn y ffenestr olygu.

12. Pan fyddwch wedi gorffen ychwanegu eich blwch, cliciwch ar **Save changes** i orffen.

13. Edrychwch ar ragolwg o'r adran ar strwythur y safle i wneud yn siŵr bod y blwch yn ymddangos fel yr hoffech.